
PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Gwasanaethau Campws
Campus Services

# Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd 2023/24









# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Rhagarweiniad | 3 |
| Rheolaeth Amgylcheddol a Chydymffurfiaeth | 4 |
| Amcanion a Thargedau 2023/2024 | 5 & 6 |
| Rheoli Gwastraff a'r Economi Cylchol | 7 & 8 |
| Defnydd Ynni | 9 |
| Defnydd Dŵr | 10 |
| Carbon, Allyriadau a Gollyngiadau | 11 |
| Teithio a Thrafnidiaeth | 12 |
| Bioamrywiaeth | 13 |

# RHAGARWEINIAD

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol blynyddol yn disgrifio perfformiad a chyflawniadau'r Brifysgol ym mlwyddyn academaidd 2023-24, ac mae'n adolygu'r cynnydd a wnaed yn ôl y nodau a'r amcanion amgylcheddol a gytunwyd. Mae'r Adroddiad hefyd yn cynnig sylwadau ynghylch y rhwymedigaethau sy'n ymwneud â chydymffurfio ac mae'n gwerthuso cynhyrchiant gwastraff y Brifysgol, ei defnydd ar ynni a dŵr, cynhyrchu allyriadau carbon, tueddiadau mewn teithio a thrafnidiaeth ac ymdrechion i wella bioamrywiaeth. Er mwyn hwyluso ymdrechion y Brifysgol i leihau ei heffeithiau amgylcheddol, gosodwyd 28 o amcanion a thargedau ar gyfer 2023-24, a gyflwynir ac a drafodir yn yr Adroddiad.

Ar ôl archwiliad amgylcheddol allanol llwyddiannus ym mis Mawrth 2023, cynhaliodd y Brifysgol ei thystysgrif ISO 14001:2015 ar gyfer ei System Rheolaeth Amgylcheddol. Mae cynnal y dystysgrif yn dilysu gweithdrefnau amgylcheddol y Brifysgol ac yn cadarnhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol sy'n berthnasol i'w gweithrediadau, ei haddysgu a'i hymchwil.

Gwnaethpwyd diweddariadau sylweddol yn 2023-24 i ddiweddaru'r polisïau sy'n rheoli cadwraeth dŵr, bioamrywiaeth, a theithio a thrafnidiaeth, a oedd yn cynnwys cymeradwyo'r **Safonau Cadwraeth Dŵr** a'r **Polisi Rheoli Glaswelltiroedd Amwynderol**, yn ogystal â chwblhau drafftiau terfynol y **Polisi Bioamrywiaeth a Polisi Teithio a Thrafnidiaeth** i'w cymeradwyo yn 2024/25. Darparodd y polisïau a ddiweddarwyd ffocws ac eglurder newydd i ymdrechion y Brifysgol i leihau'r defnydd ar ddŵr, cynyddu ansawdd a maint cynefinoedd bywyd gwyllt ar y campws, a hyrwyddo'r hierarchaeth teithio cynaliadwy ar gyfer teithio i gymudwyr, rhwng safleoedd ac at fusnes.

Cymerwyd camau sylweddol yn 2023-24 i symud agenda caffael cynaliadwy'r Brifysgol yn ei blaen. Ymhlith y mentrau allweddol yn ystod y cyfnod hwnnw roedd darparu hyfforddiant ar gaffael cynaliadwy i staff gweithredol sy'n ymwneud â datblygu tendrau, darparu gwybodaeth ac offer i integreiddio ystyriaethau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd i brosesau caffael. Yn ogystal, parhaodd y tîm caffael i ddiffinio targedau a mesurau gweithredol fel rhan o ddarpariaeth barhaus **Strategaeth Gaffael 2023 - 2026** y Brifysgol. Bydd y targedau hynny'n cynnig fframwaith clir ar gyfer olrhain a gwella perfformiad amgylcheddol ein gweithgareddau caffael.

Yn 2023/24 lleihaodd y Brifysgol ragor ar ei hallyriadau $CO_2e$ Cwmpas 1 a 2 o 107.6 tunnell, sy'n ostyngiad o 30% o lefelau 2018/19 ac mae'n cadw'r Brifysgol ar y trywydd iawn i gyflawni gostyngiad o 25% erbyn 2025.

Cyflawniad arall yn 2023-24 oedd treialu llwyfan **Warp-it** i ailddosbarthu dodrefn, offer swyddfa, ac eitemau eraill ledled y Brifysgol, a thrwy hynny hybu'r economi cylchol. Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i leihau ei gwastraff, ymestyn cylchred bywyd yr adnoddau materol, a dangos cynnydd tuag at weithio'n gynaliadwy.

Fodd bynnag, mae llawer o heriau o'n blaenau o hyd wrth i'r Brifysgol uwchraddio technoleg, offer, a'i systemau, yn ogystal â chloriannu'r pryderon economaidd. Cynhyrchwyd 737.79 tunnell o wastraff nad yw'n ymwneud ag adeiladu gan y Brifysgol yn 2023/24, sy'n gynnydd o 13.69 tunnell ar 2022/23. Fodd bynnag, gostyngodd y gyfradd ailddefnyddio ac ailgylchu 2.5%. Mae gan y Brifysgol darged o gyfradd ailddefnyddio ac ailgylchu o 70% erbyn 2025, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru, ac mae'n parhau i ddatblygu ei dealltwriaeth o ffrydiau gwastraff, gwella ymddygiad, gwella'r cyfleusterau ailgylchu a lleihau gwastraff lle bynnag y bo modd.

Parhaodd y gwaith o ffurfioli'r broses o gasglu data i fesur gwastraff o brojectau adeiladu ac ôl-osod yn 2023/24, ond ni wnaed dim cynnydd tuag at gynhyrchu safon manyleb dylunio i bob gwaith adnewyddu mawr a phob adeilad newydd. Mae'r Brifysgol yn parhau i wella'r cyfathrebu rhwng contractwyr a staff y Brifysgol i brosesu casglu data i fesur gwastraff, gan fod hynny'n hanfodol i wneud penderfyniadau a rheoli gwastraff yn effeithiol.

Er gwaethaf yr heriau hynny, mae'r Brifysgol yn parhau i fod yn ymroddedig i sicrhau dyfodol gwyrddach a gwella ei pherfformiad amgylcheddol yn barhaus. Mae hynny'n cynnwys ymdrechion newydd i gynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, lleihau rhagor ar allyriadau carbon o'i adeiladau, caffael, a theithio, a hyrwyddo bioamrywiaeth ledled ei hystad.

# RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL A CHYDYMFFURFIAETH

## BYDD PRIFYSGOL BANGOR YN PARHAU I LEIHAU EI HEFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

LLEIHAU DEFNYDD YNNI A DŴR.

HYRWYDDO MENTRAU TRAFNIDIAETH CYNALIADWY.

SICRHAU CYDYMFFURFIAD Â'R HOLL DDEDDFWRIAETH A GOFYNION PERTHNASOL SY'N GYSYLLTIEDIG Â'N GWEITHGAREDDAU.

LLEIHAU EIN CYFRANIAD AT HINSAWDD FYD-EANG TRWY GWTOGI BLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN AR EIN HALLYRIADAU NWYON TŶ GWYDR.

YMRWYMO I ATAL LLYGRU'R AMGYLCHEDD NATURIOL.

YMGORFFORI DATBLYGU CYNALIADWY AC YMWYBYDDIAETH O FATERION AMGYLCHEDDOL YN EIN CWRICWLA AR DRAWS Y BRIFYSGOL.

HYRWYDDO A CHYNYDDU CADWRAETH A CHYNNYDD BIOAMRYWIAETH LEDLED YSTÂD Y BRIFYSGOL.

CODI YMWYBYDDIAETH AMGYLCHEDDOL AC YMWYBYDDIAETH O NODAU DATBLYGU CYNALIADWY'R CENHEDLOEDD UNEDIG YMYSG STAFF A MYFYRWYR TRWY WELL CYFATHREBU A CHYD-GYFRANNU

SEFYDLU AMCANION A THARGEDAU AMGYLCHEDDOL AC ADRODD AR GYNNYDD YN FLYNYDDOL.

RHEOLI GWASTRAFF TRWY LEIHAU, AILDDEFNYDDIO A HYRWYDDO AILGYLCHU.

YMGORFFORI CYNALIADWYEDD YN Y PROSESAU CAFFAEL

Mae system rheoli amgylcheddol y Brifysgol wedi'i gosod yn unol ag ISO14001:2015, sy'n safon ryngwladol ar gyfer systemau rheoli amgylcheddol. Mae ISO14001:2015 yn darparu fframwaith gweithio i'w ddilyn ac mae ei chymalau'n darparu'r cyfeiriadau a'r canllawiau angenrheidiol i gyflwyno system rheoli amgylcheddol effeithiol.  Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn cynnal ardystiad ISO14001:2015, sy'n dilysu ei hymrwymiad i leihau ei heffaith amgylcheddol andwyol a gwella ei pherfformiad amgylcheddol cyffredinol flwyddyn ar ôl blwyddyn. I gael gwybodaeth fanylach am system rheoli amgylcheddol y Brifysgol, gweler y tudalennau Rheolaeth Amgylcheddol ar y wefan.

Mae Polisi Amgylcheddol Prifysgol Bangor yn dangos ei hymrwymiad i leihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'i holl weithgareddau, gan gynnwys gweithrediadau, addysgu ac ymchwil. Mae'r Polisi Amgylcheddol hefyd yn addo lleihau'r gwastraff cyffredinol a gynhyrchir trwy gynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu eitemau gwastraff. Yn unol â'r Polisi, bydd y Brifysgol yn gweithio'n rhagweithiol i leihau ei defnydd o ynni a dŵr, annog caffael cynaliadwy a theithio a thrafnidiaeth i leihau rhagor ar ei hallyriadau carbon. Yn ogystal, mae'n addo hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth ledled ei hystad a chodi ymwybyddiaeth amgylcheddol, a hyrwyddo Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ymhlith y staff a'r myfyrwyr trwy well cyfathrebu a chyfranogiad, gan hefyd ymgorffori datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ein cwricwla ledled y Brifysgol.

Caiff ymrwymiadau amgylcheddol y Brifysgol eu monitro gan Dîm Perfformiad Amgylcheddol y Campws. Cânt eu mesur yn rhannol trwy osod amcanion a thargedau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a chynaliadwyedd. Caiff y cynnydd a gyflawnir o ran yr amcanion a'r targedau hynny ei adrodd yn flynyddol i'r Grŵp Datblygu Cynaliadwyedd. Yn ogystal, mae gosod amcanion a thargedau hefyd yn ysgogi gwelliant parhaus, sy'n greiddiol i System Rheoli Amgylcheddol ISO14001 ardystiedig y Brifysgol.

Mae sicrhau cydymffurfiaeth yn golygu nodi'r gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau eraill sydd yn eu lle i warchod yr amgylchedd naturiol. Mae Prifysgol Bangor yn cynnal a Cofrestr i dogfennu'r gofynion hynny, ac sy'n ystyried yr holl weithgareddau sy'n digwydd yn y Brifysgol. Mae hefyd angen adolygiadau rheolaidd ar ddeddfwriaeth a thrwyddedau newydd, hawlenni a chytundebau a gyhoeddir gan reoleiddwyr amgylcheddol i wirio a chadarnhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau cydymffurfio eraill.

# AMCANION A THARGEDAU 2023/2024

| MAES EFFAITH | TARGED | HYD | STATWS |
|---|---|---|---|
| T1 - Cydymffurfiaeth Amgylcheddol | Sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth a'r rhwymedigaethau perthnasol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau ac atal llygru'r amgylchedd naturiol a dangos cydymffurfiaeth | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| T2 - Rheoli Gwastraff | a. Treialu system (Warp-it) sy'n fodd i gatalogio dodrefn, deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa diddefnydd neu segur a sicrhau eu bod ar gael i'w hailddosbarthu a'u hailddefnyddio i'r staff ledled y Brifysgol | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| | b. Creu proses i gasglu data i feintioli (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod | 2023 - 2025 | **Heb Ddechrau** |
| | c. Llunio adroddiad i ddeall cynnwys gwastraff na ellir ei ailgylchu o adeiladau preswyl i nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar ymddygiad yn y dyfodol | 2023 - 2026 | **Heb Ddechrau** |
| | d. Disodli labeli ac arwyddion ym mhob man arlwyo gyda'r nod o gynyddu cyfradd ailgylchu'r defnyddwyr | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| | e. Ychwanegu cynwysyddion gwastraff cyffredinol at unedau biniau lluosog ailgylchu allanol lle bo angen | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| | f. Gweithredu'r fframwaith ar gyfer caffael dodrefn ledled y Brifysgol a gynlluniwyd gydag egwyddorion economi cylchol | 2023 - 2026 | **Heb Ddechrau** |
| | g. Peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi ac ailddefnyddio ac ailgylchu 70% erbyn 2025 | 2023 - 2025 | **Parhaus – Tu ôl i'r Targed** |
| T3 - Caffael | a. Ymgorffori caffael cynaliadwy a chamau gweithredu Cwmpas 3 i leihau allyriadau yn y Strategaeth Lleihau Carbon yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatgarboneiddio caffael | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| | b. Diffinio targedau a mesurau gweithredol sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n gysylltiedig â pholisïau corfforaethol a Strategaeth Gaffael Prifysgol Bangor | 2024 - 2025 | **Parhaus – Ar y Targed** |
| | c. Sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) carbon ac amgylcheddol perthnasol yn cael eu cynnwys yn y tendrau perthnasol ochr yn ochr â datblygu canllawiau i helpu mesur, monitro ac adrodd | 2024 - 2025 | **Parhaus – Ar y Targed** |
| | d. Nodi a darparu hyfforddiant caffael cynaliadwy i'r holl staff gweithredol sy'n ymwneud â datblygu tendrau a rheoli contractau | 2024 - 2025 | **Parhaus – Ar y Targed** |
| | e. Cyfleu'r nodau a'r gofynion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd i gyflenwyr ochr yn ochr â chamau gweithredu ehangach i ymgysylltu â'r farchnad a gweithgareddau cyfathrebu | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd yn Rhannol** |
| T4 - Cyfleustodau Dŵr | a. Lleihau'r defnydd ar ddŵr 2% o'i gymharu â 2022/23, o ganlyniad i i) arwynebedd llawr m2 defnyddiol a ii) myfyrwyr a staff CALl (trwy ei hyrwyddo ymhlith y staff a'r myfyrwyr) | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |
| | b. Llunio a chymeradwyo Cynllun Rheoli Dŵr y Brifysgol i leihau'r defnydd ar ddŵr a gwella cadwraeth dŵr | 2023 - 2024 | **Cyflawnwyd** |

# AMCANION A THARGEDAU 2023/2024

| MAES EFFAITH | TARGED | HYD | STATWS |
|---|---|---|---|
| T5 - Teithio a Thrafnidiaeth | a. Llunio a chymeradwyo Polisi Teithio a Thrafnidiaeth newydd | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| | b. Cyflwyno system dalu i bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus ledled ystad y Brifysgol | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| | c. Cynyddu nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Brifysgol 10% erbyn 2025 | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| | d. Cefnogi ac annog dulliau teithio mwy cynaliadwy ar gyfer cymudo a theithio rhwng safleoedd, gan gynnwys parhau i gysylltu â chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus (cyfathrebu) | 2023 - 2024 | Cyflawnwyd |
| | e. Archwilio darpariaeth y cyfleusterau beicio (parcio beiciau, cawodydd, loceri ac yn y blaen) ledled ystad y Brifysgol | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| | f. Ymgorffori'r hierarchaeth teithio cynaliadwy a nodir ym Mholisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol ym mhob un o bolisïau ac arferion y Brifysgol | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| T6 - Bioamrywiaeth | a. Sefydlu 5 safle cychwynnol wedi'u neilltuo ar gyfer '30x30' ar dir y Brifysgol | 2023 - 2024 | Cyflawnwyd |
| | b. Cynnal arolygon bioamrywiaeth sylfaenol ar y 5 safle '30x30' cychwynnol | 2023 - 2025 | Parhaus – Tu ôl i'r Targed |
| | c. Cymeradwyo a gweithredu Polisi Bioamrywiaeth a Chynllun Gwella Bioamrywiaeth y Brifysgol | 2023 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| T7 - Carbon | a. Lleihau CO2e yn seiliedig ar leoliad (ar gyfer allyriadau Cwmpas 1 a 2) o flwyddyn sylfaen 2018/19 25% erbyn diwedd 2025 | 2022 - 2025 | Parhaus – Ar y Targed |
| T8 - Adeiladu | a. Llunio Safon manyleb ddylunio i bob gwaith adnewyddu mawr ac adeiladau newydd | 2023 - 2025 | Parhaus – Tu ôl i'r Targed |
| | b. Creu asesiad trylwyr o'r defnydd ar ynni, gwelliannau i adeiladwaith yr adeiladau, cadwraeth ynni o fewn y cylch, a thechnolegau eraill sy'n lleihau CO2e i bob un o adeiladau'r Brifysgol (newid i adeiladau craidd) | 2023 - 2026 | Parhaus – Tu ôl i'r Targed |

# RHEOLI GWASTRAFF A'R ECONOMI CYLCHOL

Mae gan y Brifysgol Bolisi Rheoli Gwastraff cadarn sy'n galw am welliant parhaus yn ein harferion rheoli gwastraff er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn Strategaeth Tuag at Ddyfodol Di-wastraff 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, tra hefyd yn bodloni gofynion safon amgylcheddol ISO 14001:2015. Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu targed Llywodraeth Cymru i ailddefnyddio ac ailgylchu 70% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir erbyn 2025. Mae cynyddu ailddefnyddio, ailgylchu, a thyfu'r economi gylchol yn lleihau allyriadau carbon yn effeithiol ac yn lleihau'r galw am adnoddau naturiol. Yn ogystal, mae lleihau gwastraff ac ailddefnyddio mwy o eitemau yn yr economi leol hefyd yn arbed costau i'r Brifysgol.

| | 2023/24 | 2022/23 | % Y NEWID O'R FLWYDDYN FLAENOROL+1.89% |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Gwastraff a Gynhyrchwyd (Tunelli Metrig - TM) | 737.79 | 724.10 | +1.89% |
| Cyfanswm TM Wedi'i Ailddefnyddio a'i Ailgylchu (Canran y cyfanswm) | 407.84 (55.28%) | 399.56 (55.18%) | |
| Cyfanswm TM a Anfonwyd i Adfer Ynni (Canran y cyfanswm) | 329.95 (44.72%) | 324.54 (44.82%) | |
| Cyfanswm a Anfonwyd i Dirlenwi TM (Canran y cyfanswm) | 0.0 (0%) | 0.0 (0%) | |



# RHEOLI GWASTRAFF A'R ECONOMI CYLCHOL







## Targedau gwastraff 2023/24


- Treialu system (Warp-it) sy'n fodd i gatalogio dodrefn, deunydd ysgrifennu ac offer swyddfa diddefnydd neu segur a sicrhau eu bod ar gael i'w hailddosbarthu a'u hailddefnyddio i'r staff ledled y Brifysgol gan fesur y manteision sydd o ran lleihau gwastraff trwy ailddosbarthu o'i gymharu â'u prynu'n newydd
- Creu proses i gasglu data i fesur gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod
- Llunio adroddiad i ddeall cynnwys gwastraff na ellir ei ailgylchu o adeiladau preswyl i nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar ymddygiad yn y dyfodol
- Gosod labeli ac arwyddion newydd ym mhob man arlwyo
- Ychwanegu cynwysyddion gwastraff cyffredinol at unedau biniau lluosog ailgylchu allanol lle bo angen
- Gweithredu'r fframwaith caffael dodrefn ledled y Brifysgol a gynlluniwyd gydag egwyddorion economi cylchol
- Cyflawni sero o ran gwastraff i safleoedd tirlenwi a 70% o ailddefnyddio ac ailgylchu erbyn 2025

## Y cynnydd yn ôl y targedau

- Gweithredwyd Warp-it yn llwyddiannus yn 2023/24 ond fe'i cyfyngwyd i dwf organig yn hytrach na hyrwyddo a marchnata ledled y Brifysgol oherwydd nad oes fersiwn Gymraeg gyfatebol o'r platfform
- Creu proses i gasglu data i fesur gwastraff (tunelledd a mathau o wastraff) o brojectau gwastraff adeiladu ac ôl-osod
- Mae gwaith yn parhau ar yr adroddiad i ddeall cynnwys gwastraff na ellir ei ailgylchu o adeiladau preswyl a disgwylir ei gwblhau yn 2024/25
- Cafodd labeli ac arwyddion eu diweddaru ym mhob man arlwyo er mwyn cyfathrebu gofynion gwahanu gwastraff yn well
- Mae'r gwaith i ffurfioli proses i gasglu data gwastraff adeiladu ac ôl-osod yn parhau.

Cododd y Brifysgol ymwybyddiaeth ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr trwy well cyfathrebu, ymgyrchoedd a mentrau. Y rhaglenni craidd a gynhaliwyd yn 2023-24 oedd **Gwell Ar Wahân** ac **Wythnos Ymwybyddiaeth Gwastraff**. Yn ogystal, rhoddwyd sesiynau cynefino i staff newydd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am yr economi cylchol a lleihau gwastraff yn y Brifysgol, yn ogystal â chyflwyno sesiynau hyfforddi gloywi i'r staff presennol.

# DEFNYDD YNNI




*Data CALI diwygiedig

| | 2023/24 | O'I GYMHARU Â 2018/19 | O'I GYMHARU Â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Ynni | 31,863,351.97kWh | -15.1% | -31.6% |
| i. Defnydd o ynni fesul m2 | 142.56 kWh/m2 | **-12.9%** | **-45.0%** |
| ii. Defnydd o ynni fesul Cyfwerth Amser Llawn (CALI) | 2,666.28 kWh/CALI | **-26.4%** | **-46.7%** |


## CRYNODEB O DDEFNYDD YNNI

| | 2023/24 |
|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Trydan | 13,883,015.10 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Nwy | 17,261,894.67 kWh |
| Cyfanswm Defnydd Olew Gwresogi | 538,723.80 kWh |
| Cyfanswm Defnydd LPG | 44,932.00 kWh |
| Cynhyrchu ar y Safle (Solar) | 134,786.40 kWh |

# DEFNYDD DŴR

| | 2023/24 | O'I GYMHARU Â 2018/19 | O'I GYMHARU Â 2005/06 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm Defnydd Dŵr | 110,999.67 m3 | -27.0% | -31.6% |
| i. Defnydd dŵr fesul m2 arwynebedd llawr defnyddiol | 496.64 litr/m2 | **-25.1%** | **-45.0%** |
| ii. Defnydd dŵr fesul CALI (myfyrwyr a staff) | 9,288.29 litr/CALI | **-36.7%** | **-46.7%** |

Roedd cynaeafu dŵr glaw ar ddau safle yn mesur 116.06 m3 yn 2023/24, a'r gobaith yw cynyddu'r hyn a ddaliwn ac a fesurwn yn y dyfodol.




*Data CALI diwygiedig

# CARBON, ALLYRIADAU A GOLLYNGIADAU

Ym mlwyddyn academaidd 2023/24 gostyngodd allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2 y Brifysgol eto hyd **6,641.66 tunnell CO2e**, o'i gymharu â 6,749.20 tunnell CO2e yn 2022/23 a 9,491.9 tunnell CO2e yn 2018/19, yn seiliedig ar gyfrifiadau trydan yn ôl y lleoliad. Arhosodd allyriadau seiliedig ar y farchnad yr un fath ag allyriadau seiliedig ar leoliad gan na chafodd unrhyw drydan adnewyddadwy ardystiedig Gwarantau Tarddiad Ynni Adnewyddadwy (REGO) ei gaffael yn ystod y flwyddyn.

| CYFANSWM ALLYRIADAU CWMPAS 1 A 2 | 2023/24 | O'I GYMHARU Â 2018/19 |
|---|---|---|
| i. Dull Seiliedig ar Leoliad | 6,641.66 tunnell CO2e | **-30.0%** |
| ii. Dull Seiliedig ar y Farchnad | 6,641.66 tunnell CO2e | **-30.0%** |

Roedd cymhariaeth o weithgareddau Cwmpas 1 a 2 rhwng 2022/23 a 2023/24 yn dangos gostyngiad bach yn nefnydd trydan, LPG, a nwy naturiol, tra bo olew gwresogi ac aerdymheru a nwyon-F rheweiddio wedi cynyddu, yr olaf oherwydd gwelliant mewn casglu data . Gostyngodd y defnydd o danwydd i'r fflyd a'r peiriannau hefyd, a chyfrannodd hyn oll at ostyngiadau pellach mewn allyriadau carbon Cwmpas 1 a 2. Eleni bu holl araeau solar y Brifysgol yn weithredol, a arweiniodd at yr allbwn uchaf ers eu gosod.

**DPA 1.6 y Brifysgol: Lleihau allyriadau CO2e Cwmpas 1 gwresogi tanwydd ffosil Cwmpas 1 o leiaf 3% y flwyddyn ar gyfartaledd.** Mae DPA y Brifysgol i leihau allyriadau gwresogi tanwydd ffosil CO2e Cwmpas 1 o leiaf 3% y flwyddyn, ar gyfartaledd, ychydig yn uwch nag isafswm y targed, ac mae'r allyriadau wedi gostwng 15% (588t) ers 2018/19.

O fewn allyriadau Cwmpas 3 bu gostyngiad mawr yn nefnydd dŵr yn gyffredinol, sy'n cyfateb i ddŵr a ddelir mewn bron i 8 o byllau nofio o faint Olympaidd. Mae mesuriadau ychwanegol ar gyfer cynaeafu dŵr glaw yng Ngardd Fotaneg Treborth wedi dal rhywfaint o ddefnydd dŵr i'r gerddi am y tro cyntaf. Mae'r Brifysgol yn parhau i archwilio cyfleoedd i leihau allyriadau carbon trwy amrywiol ddulliau, ymgyrchoedd ac astudiaethau dichonoldeb.

| ALLYRIADAU CWMPAS 1 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Nwy | 3,157.20 tunnell CO2e |
| Defnydd Olew Gwresogi | 132.94 tunnell CO2e |
| Defnydd LPG | 9.64 tunnell CO2e |
| Defnydd Petrol | 17.18 tunnell CO2e |
| Defnydd Disel | 51.85 tunnell CO2e |
| Aerdymheru a Nwyon-F oereiddio | 126.37 tunnell CO2e |
| Gweithgareddau Amaethyddol | 272.00 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm Cwmpas 1** | **3,767.18 tunnell CO2e** |

| ALLYRIADAU CWMPAS 2 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar Leoliad) | 2,874.48 tunnell CO2e |
| Defnydd Trydan - (Dull Seiliedig ar y Farchnad) | 2,874.48 tunnell CO2e |

| ALLYRIADAU CWMPAS 3 YN ÔL FFYNHONNELL | |
|---|---|
| Defnydd Dŵr | 17.00 tunnell CO2e |
| Cynhyrchu Dŵr Gwastraff | 18.24 tunnell CO2e |
| Gwastraff | 5.07 tunnell CO2e |
| Fflyd Lwyd | 132.31 tunnell CO2e |
| Cerbydau ar Brydles (Hurio Car) | 26.80 tunnell CO2e |
| Teithio Busnes[1] | 770.60 tunnell CO2e |
| Cadwyn Gyflenwi (Caffael) | 19,687.47 tunnell CO2e |
| **Cyfanswm Cwmpas 3** | **20,657.49 tunnell CO2e** |

| STORIO YN ÔL DALIADAU TIR | |
|---|---|
| Allyriadau tir | -894.91 tunnell CO2e |

| CYFANSWM YR ALLYRIADAU A ADRODDWYD - CWMPAS 1, 2 A 3 | |
|---|---|
| **Cyfanswm gyda thrydan seiliedig ar leoliad** | **27,299.15 tunnell CO2e** |
| **Cyfanswm gyda thrydan seiliedig ar y farchnad** | **27,299.15 tunnell CO2e** |

1 Mae Teithio Busnes yn cynnwys rhan yn unig o'r allyriadau trên ac awyr a gafodd eu mesur trwy Asiant Teithio'r Brifysgol. .



# TEITHIO A THRAFNIDIAETH

**Targed teithio a thrafnidiaeth 2023/24**

- Llunio a chymeradwyo Polisi Teithio a Thrafnidiaeth newydd
- Cyflwyno system dalu i bwyntiau gwefru Cerbydau Trydan cyhoeddus ledled ystad y Brifysgol
- Cynyddu nifer y cerbydau trydan yn fflyd y Brifysgol 10% erbyn 2025
- Cyfathrebu i gefnogi ac annog dulliau teithio mwy cynaliadwy ar gyfer cymudo a theithio rhwng safleoedd, gan gynnwys parhau i gysylltu â chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus
- Archwilio darpariaeth y cyfleusterau beicio (parcio beiciau, cawodydd, loceri ac yn y blaen) ledled ystad y Brifysgol
- Ymgorffori'r hierarchaeth teithio cynaliadwy a nodir ym Mholisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol ym mhob un o bolisïau ac arferion y Brifysgol

**Y cynnydd yn ôl y targedau**

Cyflawnwyd targedau teithio a thrafnidiaeth 2023/24 yn rhannol. Fodd bynnag, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r targedau hynny'n para am ddwy flynedd, cânt eu datblygu ymhellach yn 2024/25.

Mae'r cynnydd a gyflawnwyd yn 2023/24 yn cynnwys:

- Cafodd Polisi Teithio a Thrafnidiaeth drafft ei gwblhau fis Gorffennaf 2024
- Mae'r hierarchaeth teithio cynaliadwy bellach wedi'i gwreiddio ym Mholisi Teithio a Thrafnidiaeth y Brifysgol
- Penodwyd Swarco Ltd. (rhwydwaith Evolt bellach) i osod system talu gydag ap ar gyfer pwyntiau gwefru ceir trydan cyhoeddus (EV) ac mae 13 o wefrwyr cerbydau trydan bellach yn weithredol ledled y Brifysgol.
- Roedd nifer o eitemau yn y Bwletin Staff yn 2023/24 yn rhoi gwybodaeth am themâu teithio a thrafnidiaeth, gan gynnwys hyfforddiant i ddefnyddio asiantaeth deithio ganolog newydd y Brifysgol - Teithio Amrywiaeth - a hyrwyddo'r cynllun Beicio i'r Gwaith - Aberthu Cyflog i'r staff

Darllenwch fwy am Deithio a Thrafnidiaeth yn y Brifysgol yma: Teithio a Thrafnidiaeth - Canllawiau Teithio Cynaliadwy

# BIOAMRYWIAETH

Gosododd y Brifysgol darged yn 2022 i gadw a gwella 30% o'i mannau gwyrdd presennol a sefydlu 30 o safleoedd newydd er budd bywyd gwyllt ar draws ei hystad erbyn 2030. Mae'r targed hwn yn cael ei gyflawni gan y fenter 30x30, a bydd y 30 ardal newydd yn cynnig cynefinoedd cyfoethog i rywogaethau lleol, yn sefydlu cysylltiadau ag ardaloedd gwyllt eraill ger ystad y Brifysgol ac yn helpu cynyddu bioamrywiaeth leol a hybu rhywogaethau.

**Targedau bioamrywiaeth 2023/24**

- Sefydlu 5 safle cychwynnol neilltuol ar gyfer **'30x30'** ar dir y Brifysgol (2023/24)
- Cwblhau arolygon bioamrywiaeth sylfaenol ar gyfer y pum safle **30x30** cyntaf (2023-25)
- Cymeradwyo a gweithredu Polisi Bioamrywiaeth a Chynllun Gwella Bioamrywiaeth y Brifysgol

**Y cynnydd yn ôl y targedau**

- Dewiswyd pum safle yn 2023/24 a'u rheoli'n wahanol er lles bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Caniataodd tîm Tiroedd a Thirwedd y Brifysgol i'r glaswellt a'r blodau gwyllt dyfu trwy gydol y gwanwyn a'r haf, a oedd yn darparu bwyd i adar a phryfed
- Cwblhawyd arolygon llystyfiant gwaelodlin ar y pum safle **30x30** cyntaf
- Cafodd Polisi Bioamrywiaeth drafft ei gwblhau yn 2023/24 i'w gymeradwyo gan y Grŵp Cyflawni Cynaliadwyedd yn 2024/25

I gael gwybodaeth fanwl am fioamrywiaeth ym Mhrifysgol Bangor, gweler: Adran 6: Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwytnwch Ecosystemau - Adroddiad 2022

